Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

11 Mawrth 2020

Annwyl Mick,

Yn dilyn fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am y Cyfarfod Pedairochrog i'r Gweinidogion Cyllid ar 10 Mawrth, hoffwn ddarparu adborth ichi ar y trafodaethau.

Roedd hwn yn gyfarfod adeiladol a manteisiais ar y cyfle i bwysleisio bod angen rhagor o gyllid yng Nghymru i fynd i'r afael â Covid 19 yn ogystal ag effaith y llifogydd diweddar. Ar ôl y cyfarfod, rhoddais ddatganiad ar y cyd â Gweinidogion Cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Dolen i'r datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru:
https://llyw.cymru/galw-ar-lywodraeth-i-drafod-ar-gweinyddiaethau-datganoledig-cyn-negodi-ar-ue?_ga=2.89579154.863410865.1583768581-1703483554.1565709166

Dywedodd y Prif Ysgrifennydd ei fod yn cynllunio ar gyfer Adolygiad o Wariant y DU yn yr haf, ac rydym yn disgwyl y bydd amserlen tair blynedd ar gyfer hyn. Cawsom sgwrs gadarnhaol ynglŷn â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cyfarfodydd Pedairochrog a Datganiad o'r Polisi Cyllid. Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith rydym yn ei wneud ar y cyd i ddatblygu'r fframweithiau hyn.

Fel y disgwyliwyd, nid oedd y Prif Ysgrifennydd yn gallu rhannu manylion y Gyllideb sydd ar fin dod, ond edrychaf ymlaen at ddarparu datganiad ysgrifenedig pan fydd y Gyllideb wedi cael ei chyhoeddi.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.